Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 33 – 30 MEDI 2009

Mae'n ddiwedd mis Medi yn barod a, gyda'r dyddiau yn byrhau, braf yw nodi bod yna lwyth o ddigwyddiadau amrywiol yn digwydd yn y Morlan i'ch difyrru dros yr wythnosau nesaf – wedi'u trefnu gan Morlan a mudiadau eraill.

ARDDANGOSFA LEONÉ SPIES
Hyd at 15 Hydref
Dyma'ch cyfle olaf i weld y peintiadau trawiadol hyn o olygfeydd lleol. Mae cyfran o'r arian o werthiant y lluniau yn mynd tuag at Ffagl Gobaith. Mae yna ddau ddigwyddiad ar ôl i gyd-fynd â'r arddangosfa hon – manylion pellach o Dana Edwards: 01970-617042.

PICNIS TEDI BERS A GWEITHDY TELYNAU
2.00-4.00, prynhawn Sadwrn, 3 Hydref
Picnic Tedi Bers a gweithdy telynau Dryw Bach gydag Eleri Turner.

TWMPATH DAWNS
8.00-10.00, nos Fercher, 7 Hydref
Twmpath dawns gydag Erwyd Howells.

DIWRNOD GWEDDI BYD-EANG DROS NEWID HINSAWDD
12.00-6.00, pnawn Sul, 4 Hydref
Cyfnod o fyfyrio tawel gyda darlleniadau perthnasol a chyfleoedd ar gyfer gwaith celf ac ysgrifennu, yfed a bwyta a chwrdd ag eraill. Croeso i bawb – dewch am ychydig funudau neu arhoswch am oriau. Am wybodaeth bellach neu i gynnig helpu, cysyllter â Helen neu David Oldham: 01970-611923; david2oldham@lineone.net.

DYCHWELYD I BALESTEINA – FFILM AC ANERCHIAD GAN ED HILL
7.00, nos Sadwrn, 10 Hydref
Yr ail ffilm ddogfen gan yr ymgyrchydd dros Balesteina a'r gwneuthurwr ffilmiau annibynnol Ed Hill. Mynediad am ddim. Cyfraniadau i gangen leol Ymgyrch Cefnogi Palesteina.

NOSON GYDA CERI WYN JONES
7.00, nos Fercher, 14 Hydref
Bydd Arwel 'Rocet' Jones yn holi'r Prifardd Ceri Wyn Jones am y cerddi a enillodd iddo Goron Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau eleni. Mynediad: £3 (plant ysgol a myfyrwyr am ddim). Trefnwyd y noson hon gan y Morlan, gyda chymorth yr Academi.

ANERCHIAD GAN DAVID LOYN, GOHEBYDD TRAMOR Y BBC: *"AFFGANISTAN: PAM NAD YDYM YN DYSGU GWERSI HANES"*
2.30, dydd Iau, 15 Hydref
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio. Croeso i bawb.

BORE COFFI ER BUDD YMGYRCH YMCHWIL I ARTHRITIS
10.00, bore Sadwrn, 17 Hydref
Bore Coffi er budd cangen leol yr Ymgyrch Ymchwil i Arthritis.

WYTHNOS UN BYD (18-25 HYDREF)
GWEITHIO GYDA'N GILYDD DROS NEWID – YN LLEOL AC YN FYD-EANG
7.00, Nos Lun, 19 Hydref
Thema'r wythnos eleni yw "Newynog am Un Byd" ac mae'r Morlan wedi trefnu noson o drafod a rhannu syniadau i weld sut gall unigolion a grwpiau gwahanol gydweithio er mwyn sicrhau

newidiadau gwirioneddol yn ein cymundau lleol a'r gymuned fyd-eang. Bydd yno stondinau amrywiol a bydd diod a byrfwydydd Masnach Deg ar werth yn y Bar Coffi. Croeso i bawb – dewch i weld beth allwch chi ei wneud i wneud gwahaniaeth.

Tynnir eich sylw hefyd at gyfres o raglenni ar S4C am deithiau ysbrydol ar nosweithiau Sul am 8 o'r gloch. Bydd y rhaglen ar 25 Hydref yn olrhain hanes dwy ferch ifanc o Aberystwyth a aeth i Lourdes fis Gorffennaf eleni. Roedd yn rhaid iddynt godi arian ar gyfer y daith ac fe gynhalion nhw rhai cyfarfodydd cynllunio a digwyddiadau codi arian yn y Morlan yn ystod y flwyddyn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr